CYCA
Cysylltu Ieuenctid,
Plant ac Oedolion

Hydref 2020

# Cylchlythyr CYCA


## Rydym wedi llwyddo!

Ers cyhoeddi ein cylchlythyr haf, rydym yn falch i roi gwybod ein bod ni wedi agor ein Canolfan Ragoriaeth Newydd Iechyd a Lles Emosiynol Cymru yn swyddogol, yn ein lleoliad newydd *Dragon 24*. Roeddem yn rhan o daith Adam Price AS o amgylch Cymru, ac rydym hefyd wedi croesawu nifer o ymwelwyr, gwleidyddion ac arweinwyr i'n swyddfeydd newydd.

Oherwydd ein hystafelloedd cyfarfod, sgrîn a system hybrid (hyfforddiant digidol ac wyneb yn wyneb) newydd, rydym wedi llwyddo i gynnal rhagor o gyrsiau hyfforddi. Rydym hefyd ar ganol datblygu cyrsiau newydd a fydd yn cryfhau ein cadernid wrth i ni barhau i ddod o hyd i'r ffordd ymlaen yn ystod y cyfnod anodd hwn.



*Dafydd Llywelyn Police & Crime Commissioner & Tracy Pike, MBE*



EIN CYFEIRIAD NEWYDD


CYCA: Cysylltu Ieuenctid, Plant ac Oedolion

Uned 2, Dragon 24,
Doc y Gogledd,
Llanelli
SA15 2LF

01554 776178
support@cycaonline.org


Rhif elusen gofrestredig: 512720

## CANOLFAN RAGORIAETH NEWYDD IECHYD A LLES EMOSIYNOL CYMRU



Ar 11eg Medi 2020, diwrnod dathlu ein pen-blwydd yn 40oed, agorwyd ein Canolfan Ragoriaeth Newydd Iechyd a Lles Emosiynol Cymru yn swyddogol gan Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Troseddu Heddlu Dyfed-Powys. Roeddem hefyd yn falch bod yr Aelod Seneddol Nia Griffith, ac Aelod o’r Senedd Lee Waters, yn ogystal â llu o arweinwyr o’r awdurdod lleol, bwrdd iechyd, cyngor y dref a chyrff cyllido wedi ymuno â ni.

Gallwch weld rhagor o luniau a ffilm fer gan ein Prif Swyddog Gweithredol, yn sôn am siwrnai CYCA hyd at heddiw, ar ein gwefan: https://cycaonline.org/news/posts/2020/october/tracy-pike-mbe-tells-the-cyca-story/


Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Newydd yn dwyn ynghyd ein 40 mlynedd o brofiad o gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd. Gyda'n hystod unigryw o gymorth gydgysylltiedig, rydym yn barod i ddarparu ein gwasanaethau ar-lein, a thrwy ddull hybrid.


## CYRSIAU NEWYDD

Rydym wedi datblygu cyrsiau newydd gan gynnwys:

- Llesiant wrth ymdopi â COVID
- Cadernid wrth chwilio am swyddi
- Llwybr llesiant ac adferiad ôl-COVID
- Effaith straen ar blant a phobl ifanc
- Cadernid a gofalwyr ifanc
- Byw’n iach

Am ragor o fanylion, cysylltwch â: kath@cycaonline.org





## CYLLICEFNOGAETH AR-LEIN A HYBRID

Gan fod sefydliadau wedi cael eu gorfodi i gofleidio gweithio o bell, fe allai, ac fe ddylai Covid-19 newid patrymau gwaith a chyflenwi gwasanaethau'n barhaol.

Roedd CYCA wedi ymateb yn gyflym ar ddechrau'r pandemig i sicrhau bod y bobl rydyn ni'n eu cefnogi'n dal i dderbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw. Rydym wedi symud yr holl gefnogaeth y gallwn ni i gynnig rhithwir, ac wedi gweld cymaint o fanteision fel ein bod wedi ehangu'r cynnig hwn. Rydym yn bwriadu parhau â system hybrid (digidol ac wyneb yn wyneb) ar sail barhaus, gan ein bod ni'n credu bod y dull hwn yn fwy addas i rai pobl.

Rydym bellach yn darparu llawer o'n hyfforddiant, mentora a chwnsela presennol ar-lein, ac rydym wedi cyflwyno cyrsiau newydd a chynnig busnes hybrid.

### *Cyllid*

Hoffem ddiolch i'r cyllidwyr canlynol am eu cefnogaeth;

Arian i Bawb, *Screwfix*, Sefydliad Cymunedol Cymru, Covid-19 Pawb a'i Le, *The Rank Foundation*, *Moondance*, a'r *Thomas Wall Trust*. Yn ogystal hoffem ddiolch Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu am ei rodd i'r Ganolfan Ragoriaeth.







# EIN CARTREF NEWYDD DRAGON24

Symudon ni i *Dragon 24* ym mis Awst. Mae ein lleoliad newydd yn cynnwys ystafell gynadledda ac ystafelloedd cyfarfod sydd hefyd ar gael i'w llogi, desgiau poeth sydd wedi bod yn boblogaidd gyda busnesau lleol sydd angen mwy o le i ganiatáu cyfyngiadau cymdeithasol.

Mae ein tîm a defnyddwyr ein gwasanaeth yn hapus i fod yn gweithio mewn amgylchedd mor hwylus sy'n cynnig golygfeydd hyfryd o arfordir Llanelli. Bydd hyn yn ychwanegu at lesiant pawb rydym yn gweithio gyda nhw, ac mae gennym gynlluniau ar y gweill i ddefnyddio ein hamgylchedd newydd i ddatblygu rhagor o fanteision o ran iechyd a llesiant. Cewch glywed mwy yn y man!







*"Fi'n mor hapus gyda'n brand, gwefan, cyrsiau newydd a'n cefnogaeth ar-lein. Mae hyn yn golygu y gallwn helpu hyd yn oed mwy o bobl p'un ai yn ein Canolfan newydd neu o gysur eu cartrefi eu hunain." Tracy Pike*

## EIN GWEFAN NEWYDD

Lansiwyd ein gwefan newydd ar yr un pryd ag agoriad swyddogol y Ganolfan Ragoriaeth. Rydym yn parhau i ychwanegu ati, ond rydym yn falch iawn o gael gwefan sydd wedi'i diweddaru, sydd ar ei newydd wedd, ac yn hawdd i'w defnyddio yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bwrwch olwg arni, a rhowch wybod beth yw eich barn:

https://cycaonline.org/cy/





## EIN PLANTOS BACH

Mae ein meithrinfeydd wedi croesawu ein plantos bach yn ôl yn ddiogel, ac maent wedi bod yn cael llawer o hwyl, wrth ddysgu sgiliau newydd.

Hoffem ddiolch i'n tîm o staff sy'n cynorthwyo yn y meithrin.

Maent wedi dal ati yn ystod y cyfnod clo i ofalu am blant y rhai sydd wedi gorfod gweithio, gan ddarparu gwasanaethau hanfodol i'r rheiny sydd wedi dibynnu ar ein meithrinfeydd. Mae ein tîm meithrin wedi gweithio'n galed iawn.

Da Iawn Tîm!



## DIGWYDDIADAU I DDOD

Bydd ein Prif Swyddog Gweithredol, Tracy Pike MBE yn cynnal cynhadledd ar-lein am lwybr llesiant ac adferiad ôl-COVID.


Bydd hyn yn tynnu sylw at gynnig hyfforddiant newydd ar 4ydd Tachwedd 2020.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: anette@cycaonline.org

## I GLOI

Mae ein harweinydd meithrin, hyfryd, Dee, yn dathlu 25 mlynedd o fod gyda ni'r mis hwn. Mae Dee wedi gweithio yn ein tair meithrinfa *Teddy bears*, Tedi Bach ac ar hyn o bryd mae'n arweinydd *Jellytotz*.

Mae Dee yn llawn ymroddiad i'w swydd ac mae'n uchel ei pharch yn y gymuned. Ar ôl cynorthwyo miloedd o blant dros 25 mlynedd, mae pawb yn ei hadnabod fel Dee Dee! Hoffem i gyd ddiolch iddi am ei gwaith caled.



*Ein hystafell newydd gyda golygfa*




EIN CYFEIRIAD NEWYDD

CYCA: Cysylltu Ieuenctid, Plant ac Oedolion

Uned 2, Dragon 24,
Doc y Gogledd,
Llanelli
SA15 2LF

01554 776178
support@cycaonline.org



Rhif elusen gofrestredig: 512720